LC293

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi dyddiau i rai o ddarpariaethau Rhan IV o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ddod i rym. Ymwneud â hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru y mae'r darpariaethau y mae'r Gorchymyn hwn yn dod â hwy i rym.

Ceir gwybodaeth fanwl am natur y darpariaethau sy'n cael eu cychwyn yn y Nodyn Esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y nodyn ynghylch Gorchmynion cychwyn cynharach**

Mae angen cwblhau rhai o'r cyfeiriadau at Offerynnau Statudol cyn cyhoeddi'r Gorchymyn.

**Erthygl 2**

Mae angen diwygio rhifau'r paragraff hwn yn y testun Cymraeg.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Mehefin 2001